Archwilio Cymru
Audit Wales

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

## Crynodeb Archwilio Blynyddol 2024



Dyddiad Cyhoeddi: Mehefin 2025

Dyma ein crynodeb archwilio ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Mae'n dangos y gwaith a gwblhawyd ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2024. Mae ein crynodeb archwilio yn rhan o ddyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Ceir rhagor o wybodaeth am y dyletswyddau hyn ar ein gwefan.

### Canfyddiadau cyffredinol

Dros y 12 i 18 mis diwethaf, rydym wedi cyhoeddi cyfres o adroddiadau i'r Cyngor yn codi pryderon ynghylch agweddau ar drefniadau'r Cyngor gan gynnwys cynllunio ariannol, rheoli perfformiad a llywodraethu. O ystyried newidiadau staffio sylweddol, mae'r Cyngor hefyd wedi cael anawsterau diweddar o ran bodloni gofynion sy'n ymwneud â'i Ddatganiad o Gyfrifon.

Yn 2019, gwnaethom ysgrifennu at y Cyngor yn codi pryderon ynghylch ei sefyllfa ariannol, pwysau ar wasanaethau, arweinyddiaeth, llywodraethu a chapasiti. Aeth y Cyngor ati i ofyn am gymorth gan Lywodraeth Cymru, a rhoddwyd Bwrdd Gwella a phecyn cymorth ar waith. Daeth hyn i ben yn 2022. Bryd hynny, roedd cynnydd y Cyngor i fynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd gennym yn flaenorol yn rhoi sicrwydd i ni a'r Bwrdd Gwella, ond nodwyd bod llawer o waith i'w wneud o hyd i sicrhau bod newidiadau'n cael eu hymgorffori a bod momentwm yn cael ei gynnal.

Fodd bynnag, mae canfyddiadau ein gwaith dros y 12 i 18 mis diwethaf wedi nodi gwendidau tebyg mewn trefniadau, gan godi pryderon cyffredinol ynghylch trefniadau'r Cyngor i sicrhau ei fod yn defnyddio adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

Rydym yn cydnabod bod y Cyngor wedi cynyddu ei gapasiti ar lefel uwch-reolwyr yn ddiweddar, ac y cafwyd penodiadau diweddar hefyd i dîm Cyllid y Cyngor (gan gynnwys Swyddog Adran 151 a Phennaeth Cyllid). Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi cadarnhau i ni ei fod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd yn ein hadroddiadau diweddar. Mae'n bwysig wrth symud ymlaen bod y Cyngor, swyddogion a chynghorwyr fel ei gilydd, yn dangos ar y cyd effaith gweithredoedd y Cyngor i gryfhau ei drefniadau.

# Ynglŷn â'r Cyngor

## Rhai o'r gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu



**Ffeithiau allweddol**

Mae'r Cyngor yn cynnwys 30 o gynghorwyr sy'n cynrychioli'r pleidiau gwleidyddol canlynol:

- Llafur 14
- Grŵp Annibynnol 11
- Annibynnol 3
- Annibynwyr Cymunedol Dowlais a Phant 2

Gwariodd y Cyngor £153 miliwn ar ddarparu gwasanaethau[1] yn ystod 2023-24[2].

Ar 31 Mawrth 2024, roedd gan y Cyngor £33 miliwn o gronfeydd ariannol defnyddiadwy[3]. Mae hyn gyfwerth â 22% o wariant blynyddol y Cyngor ar wasanaethau[4].

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful 22% o'r 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru; dyma ail uchaf o'r 22 o gynghorau unedol yng Nghymru[5].

Rhagwelir y bydd poblogaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn cynyddu 4% rhwng 2024 a 2043 o 61,200 i 63,500, gan gynnwys gostyngiad o 3% yn nifer y plant, cynnydd o 1% yn nifer y boblogaeth oedran gweithio, a chynnydd o 20% yn nifer y bobl 65 oed a hŷn[6].

[1] Rydym yn diffinio gwariant ar wasanaethau fel cost gwasanaethau a godir ar y gronfa gyffredinol o'r Dadansoddiad Ariannu Gwariant, namyn costau unrhyw wasanaethau a ariennir o'r Cyfrif Refeniw Tai, gan ychwanegu praeseptau, ardollau a llog ar ddyledion.

[2] Ffynhonnell: 2023-24 Datganiad o'r Cyfrifon

[3] Rydym yn diffinio cronfeydd ariannol y gellir eu defnyddio fel cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio ar gyfer costau refeniw, lle nad yw'r pwrpas wedi'i ddiogelu gan y gyfraith. Mae hyn yn golygu cyfanswm y gronfa gyffredinol, cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, a balansau ysgolion. Nid yw'n cynnwys cronfeydd wrth gefn Cyfrif Refeniw Tai, derbyniadau cyfalaf, na grantiau cyfalaf heb eu cymhwyso.

[4] Ffynhonnell: 2023-24 Datganiad o'r Cyfrifon

[5] Diffinnir ardal yn y cyd-destun hwn fel 'Ardal Cynnyrch Ehangach Is'. Ffynhonnell: Stats Cymru

[6] Ffynhonnell: Stats Cymru, Amcanestyniadau o'r Boblogaeth

# Dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol

## Gwnaethom gwblhau gwaith yn ystod 2023-24 i gyflawni'r dyletswyddau canlynol

- **Archwilio'r Cyfrifon**

  Bob blwyddyn, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio datganiadau ariannol y Cyngor i wneud yn siŵr y rhoddir cyfrif priodol am arian cyhoeddus.

- **Gwerth am arian**

  Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio a yw'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau i gael gwerth am arian am yr adnoddau y mae'n eu defnyddio, a rhaid iddo fod wedi'i argyhoeddi ei fod wedi gwneud hyn.

- **Yr egwyddor datblygu cynaliadwy**

  Mae angen i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy wrth bennu eu hamcanion llesiant a chymryd camau i'w cyflawni. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu i ba raddau y maent yn gwneud hyn.

# Yr hyn a ganfuom

## Archwilio Cyfrifon 2023-24 Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

**I gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol rydym yn cwblhau prosiectau penodol, ond rydym hefyd yn dibynnu ar waith archwilio arall, a gwaith cyrff rheoleiddio megis Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn (yr arolygiaeth addysg). Rydym yn cymryd canfyddiadau ein gwaith archwilio i ystyriaeth wrth asesu a yw'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau i sicrhau gwerth am arian. Caiff ein canfyddiadau a'n casgliadau eu crynhoi isod.**

Bob blwyddyn, rydym yn archwilio datganiadau ariannol y Cyngor.

### Ar gyfer 2023-24:

- cyflwynwyd y datganiadau drafft i'w harchwilio ar 13 Tachwedd 2024. Roedd hyn ar ôl y dyddiad cau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, sef 30 Gorffennaf 2024.
- roedd ansawdd y datganiadau drafft a gyflwynwyd i'w harchwilio yn wael mewn rhai meysydd, oherwydd y trosiant sylweddol mewn staff cyllid yn ystod y flwyddyn, a nodwyd effaith hyn fel mater sylweddol yn ein hadroddiad Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol.
- rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn wir a theg ddiamod ar ddatganiadau ariannol yr Awdurdod ar 12 Mehefin 2025, ar ôl y dyddiad cau y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru, sef, 30 Tachwedd 2024.
- cafodd Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiad Naratif yr Awdurdod eu paratoi yn unol â Chod CIPFA a chanllawiau perthnasol. Roeddent hefyd yn gyson â'r datganiadau ariannol a baratowyd gan yr Awdurdod ac ein gwybodaeth am yr Awdurdod.
- gwnaed nifer o newidiadau i ddatganiadau ariannol yr Awdurdod a gododd o'n gwaith archwilio, ac adroddwyd y rhain i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cyngor yn ein Hadroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol ym mis Mehefin 2025.
- yn ogystal â chyfrifoldebau'r Archwilydd Cyffredinol am archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod, mae ganddo gyfrifoldeb hefyd am ardystio nifer o hawliadau am grantiau a ffurflenni grantiau. Ni nodwyd unrhyw broblemau sylweddol yn ein gwaith.
- cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol y dystysgrif a oedd yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon ar gyfer 2023-24 wedi cael ei gwblhau.

## Adolygiad asesu risg a sicrwydd

Gwnaethom adolygu'r trefniadau a roddir ar waith gan y Cyngor i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau yn unol â dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol. Defnyddir ein hasesiad hefyd i lywio ein cynllunio gwaith ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

## Cynaliadwyedd Ariannol

Yn ystod 2024, gwnaethom adolygu cynaliadwyedd ariannol y Cyngor, gan gynnwys canolbwyntio ar y camau gweithredu, y cynlluniau a'r trefniadau i bontio bylchau ariannu a mynd i'r afael â phwysau ariannol dros y tymor canolig. Canfuom fod risgiau sylweddol i gynaliadwyedd ariannol y Cyngor gan nad oes ganddo gynllun ar hyn o bryd i fynd i'r afael â'i fwlch cyllido tymor canolig ac nad oes ganddo ddull hirdymor o wella ei gynaliadwyedd ariannol.

## Trefniadau Comisiynu

Yn ystod 2024, gwnaethom adolygu sut mae trefniadau cynghorau ar gyfer comisiynu yn cymhwyso ystyriaethau gwerth am arian a'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Canfuom fod gan y Cyngor drefniadau i roi cymorth i gomisiynu gwasanaethau, ond bod diffyg goruchwylio a gwerthuso corfforaethol sy'n cyfyngu ar sicrwydd y Cyngor ynghylch y cwestiwn a yw'n sicrhau gwerth am arian o'i wasanaethau a gomisiynir.

## Adolygu Trefniadau Rheoli Perfformiad

Yn ystod 2024, gwnaethom adolygu trefniadau rheoli perfformiad y Cyngor, a oedd yn edrych ar sut mae trefniadau'n cefnogi amcanion corfforaethol, sut mae'r Cyngor yn monitro'r trefniadau hynny a sut mae'n monitro eu heffeithiolrwydd. Canfuom fod gwendidau sylweddol yn nhrefniadau rheoli perfformiad y Cyngor. Mae hyn yn peri pryder gan ein bod wedi argymell yn flaenorol y dylai'r Cyngor gryfhau ei drefniadau.

## Adolygu'r Gwasanaeth Cynllunio

Yn ystod 2024, gwnaethom adolygu Gwasanaeth Cynllunio'r Cyngor i benderfynu a oedd trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian yn ei ddefnydd o adnoddau. Canfuom fod gwendidau yng ngoruchwyliaeth gorfforaethol a llywodraethu'r Gwasanaeth Cynllunio ac o ganlyniad, mae diffyg ymwybyddiaeth o sut mae'r gwasanaeth yn cefnogi cyflawni amcanion y Cyngor.

## Adroddiadau a chynhyrchion cenedlaethol a gyhoeddwyd yn 2024

Yn ogystal â gwaith lleol ym mhob cyngor, bob blwyddyn, rydym hefyd yn cynnal astudiaethau ar draws y sector llywodraeth leol i wneud argymhellion ar gyfer gwella gwerth am arian. Gwnaethom gyhoeddi'r adroddiadau canlynol yn 2024 a allai fod yn ddefnyddiol i'r Cyngor, sydd ar gael ar ein gwefan.

| **Teitl yr adroddiad** | **Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad** |
|---|---|
| Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol | Rhagfyr 2024 |
| Diweddariad Offeryn Data Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol sydd bellach yn cynnwys data o gyfrifon drafft 2023-24 | Rhagfyr 2024 |
| Y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru 2022-23 | Hydref 2024 |
| Teithio llesol (adroddiad ac offeryn data) | Medi 2024 |
| Llywodraethu Awdurdodau Tân ac Achub | Medi 2024 |
| Tai fforddiadwy | Medi 2024 |
| Digidol yn ôl dyluniad? – Gwersi o'n hadolygiad o strategaethau digidol ar draws cynghorau yng Nghymru | Awst 2024 |
| Defnyddio gwybodaeth am berfformiad: safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau – Crynodeb o ganfyddiadau ein hadolygiad yng nghynghorau Cymru | Gorffennaf 2024 |
| Llywodraethu Awdurdodau’r Parciau Cenedlaethol | Ebrill 2024 |
| Cefnogi Wcreiniaid yng Nghymru | Mawrth 2024 |
| O ymdrin â heriau wrth iddynt godi i ddiogelu at y dyfodol – yr her i wasanaethau cyhoeddus Cymru | Chwefror 2024 |

| Teitl yr adroddiad | Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad |
|---|---|
| Cynllunio ar gyfer datblygu cynaliadwy – Adfywio tir llwyd | Ionawr 2024 |

## Gwaith sydd yn yr arfaeth ar gyfer 2024-25

Gwnaethom hefyd fwrw golwg ar yr heriau a'r cyfleoedd allweddol sy'n wynebu'r Cyngor. Gallai'r rhain gael effaith ar allu'r Cyngor i gyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r modd y mae'n defnyddio'i adnoddau.

Mae ein gwaith arfaethedig ar gyfer 2024-25 yn cynnwys:

- Asesu risg a sicrwydd
- Adolygiad o'r gwasanaeth Cynllunio – mae hyn wedi'i gwblhau
- Adolygiad o Drefniadau Gwrth-dwyll

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth, ac fe’i penodwyd gan Ei Mawrhydi’r Frenhines. Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori’r Archwilydd Cyffredinol. Caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei dwyn i gyfrif gan y Senedd.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau o werth am arian mewn llywodraeth leol, yn asesu cydymffurfiaeth â’r gofynion sy’n weddill o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a gall gynnal arolygiadau arbennig dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Senedd a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân, pob un â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.